

siarter gwybodaeth ieuencid ewrop

Mabwysiadwyd yn Bratislava (Y Weriniaeth Slofac) ar 19 Tachwedd 2004 gan 15fed Cynulliad Cyffredinol Asiantaeth Gwybodaeth a Chynghori Ieuencid Ewrop (ERYICA).

Rhaglith

Mewn cymunedau cymhleth ac mewn Ewrop integredig sy'n cynnig nifer o heriau a chyfleoedd, mae mynediad at wybodaeth a'r gallu i ddadansoddi a defnyddio gwybodaeth sy'n fwyfwy pwysig i Ewropeaid ifanc. Gall wybodaeth ieuencid eu helpu i gyrraedd eu dyheadau a gall hyrwyddo'u cyfranogiad fel aelodau gweithgar o'r gymuned. Dylid darparu gwybodaeth mewn modd sy'n cynyddu'r dewisiadau sydd ar gael i bobl ifanc, ac sy'n hyrwyddo'u hymreolaeth a'r grym sydd ganddyn nhw.

Mae parch am ddemocratiaeth, hawliau dynol a rhyddid sylfaenol yn ymhygu hawl pob person ifanc i gael mynediad at wybodaeth gyflawn, wrthrychol, ddealladwy a dibynadwy ar bob un o'u cwestiynau ac anghenion. Mae'r hawl hwn i wybodaeth wedi cael ei adnabod yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, yn y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol, ac yn Argymhelliad Rhif (90) 7 Cyngor Ewrop yn ymwneud â gwybodaeth a chynghori i bobl ifanc yn Ewrop. Yr hawl hwn yw hefyd y sylfaen ar gyfer gweithgareddau gwybodaeth ieuencid sy'n cyflawni gan yr Undeb Ewropeaidd.

Cyflwyniad

Mae gwaith gwybodaeth ieuencid cyffredinol yn cynnwys pob pwnc sydd o ddiddordeb i bobl ifanc, a gall gynnwys sbectrwm o weithgareddau: hysbysu, cwnsela, cynghori, arwain, cefnogi, cyfeillio, hyfforddi, rhwydweithio, a chyfeirio at wasanaethau arbenigol. Efallai bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflwyno gan ganolfannau gwybodaeth ieuencid, neu trwy wasanaethau gwybodaeth ieuencid mewn strwythurau eraill, neu gan ddefnyddio cyfryngau electronig a chyfryngau eraill. Y bwriad yw bod egwyddorion y Siarter hon yn berthnasol i bob math o waith gwybodaeth ieuencid cyffredinol. Maen nhw'n cynnwys sylfaen ar gyfer safonau isafswm a mesurau ansawdd gellir eu sefydlu ym mhob gwlad fel elfennau o ymagwedd gynhwysfawr, ddealladwy a chydlynol i waith gwybodaeth ieuencid, sy'n rhan o bolisi ieuencid.

Egwyddorion

Mae'r egwyddorion canlynol yn cynnwys canllawiau ar gyfer gwaith ieuencid cyffredinol, sy'n ceisio sicrhau hawl pobl ifanc at wybodaeth:

1. Dylai canolfannau a gwasanaethau gwybodaeth ieuencid fod ar agor i bob person ifanc heb eithriad.
2. Mae canolfannau a gwasanaethau gwybodaeth ieuencid yn ceisio sicrhau cydraddoldeb mynediad at wybodaeth i bob person ifanc, er gwaethaf eu sefyllfa, tarddle, rhyw, crefydd, neu gategori cymdeithasol. Dylid rhoi sylw arbennig i grwpiau difreintiedig ac i bobl ifanc gydag anghenion arbennig.
3. Dylai fod yn hawdd cael at ganolfannau a gwasanaethau gwybodaeth ieuencid, heb orfod gwneud apwyntiad. Dylen nhw fod yn ddeniadol i bobl ifanc, gydag atmosffer cyfeillgar. Dylai'r oriau gweithredu cwrdd ag anghenion pobl ifanc.
4. Dylai'r wybodaeth sydd ar gael fod wedi seilio ar geisiadau pobl ifanc ac ar eu hanghenion gwybodaeth cydnabyddedig. Dylai ymwneud â phob pwnc gallai fod o ddiddordeb i bobl ifanc, a dylai ddatblygu i gynnwys pynciau newydd.
5. Dylid parchu pob defnyddiwr fel unigolyn a dylid personoli'r ymateb i bob cwestiwn. Dylid gwneud hwn mewn modd sy'n rhoi grym i ddefnyddwyr, sy'n hyrwyddo ymarfer ymreolaeth, ac yn datblygu'r cymhwysedd i ddadansoddi a defnyddio gwybodaeth.
6. Dylai gwasanaethau gwybodaeth ieuencid fod am ddim.
7. Mae gwybodaeth yn cael ei roi mewn modd sy'n parchu preifatrwydd y defnyddiwyd a'u hawl i beidio â datgelu eu hunaniaeth.
8. Darparir gwybodaeth mewn modd proffesiynol gan staff wedi'u hyfforddi ar gyfer y pwrpas hwn.
9. Mae'r wybodaeth a gynigir yn gyflawn, cyfoes, cywir, ymarferol a hawdd ei ddefnyddio.
10. Caiff pob ymdrech ei wneud i sicrhau gwrthrychedd y wybodaeth a ddarparir trwy ddefnyddio ffynonellau amrywiol a gwirio pob un.
11. Dylai'r wybodaeth a gynigir fod yn annibynnol o unrhyw ddylanwad crefyddol, gwleidyddol, ideolegol neu fasnachol.
12. Dylai canolfannau a gwasanaethau gwybodaeth ieuencid geisio cyrraedd y nifer uchaf o bobl ifanc, mewn moddau sy'n effeithiol ac yn briodol i grwpiau ac anghenion gwahanol, a thrwy fod yn greadigol a dyfeisgar yn eu dewis o strategaethau, dulliau ac offer.
13. Dylai pobl ifanc gael y cyfle i gymryd rhan, mewn moddau priodol, yng ngwahanol gyfnodau o waith gwybodaeth ieuencid, ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Gall y rhain gynnwys, ymhlith eraill: canfod anghenion gwybodaeth, paratoi a chyflwyno gwybodaeth, rheoli a gwerthuso gwasanaethau a phrosiectau gwybodaeth a gweithgareddau grŵp gyda chyfoedion.
14. Dylai canolfannau a gwasanaethau gwybodaeth ieuencid gydweithredu gyda gwasanaethau a strwythurau ieuencid eraill, yn enwedig yn eu hardal ddaeryddol, a dylen nhw rwydweithio gyda chanolwyr a chyffwrdd eraill sy'n gweithio gyda phobl eraill.
15. Dylai canolfannau a gwasanaethau gwybodaeth ieuencid helpu pobl ifanc i gael at wybodaeth a ddarparir trwy dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu modern, ac i ddatblygu'u sgiliau yn eu defnyddio.
16. Dylai pob ffynhonnell o gyllid ar gyfer gwaith gwybodaeth ieuencid ddim ymddwyn mewn modd sy'n rhwystro canolfan neu wasanaeth gwybodaeth ieuencid mewn unrhyw fodd rhag rhoi egwyddorion y Siarter hon ar waith.

© ERYICA – 2004